



TGAU

3010N10-1



W22-3010N10-1

DYDD IAU, 13 IONAWR 2022 – BORE

LLENYDDIAETH GYMRAEG

UNED 1: Barddoniaeth

HAEN SYLFAENOL

1 awr 15 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Un cwestiwn gorfodol ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

1. Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
Yn y cerddi, mae'r beirdd yn rhoi darlun o fywyd anodd i ni.

Cymharwch y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** a/neu'n **wahanol**.
 Dylech wneud hyn drwy:

- ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:
 - *Pa fath o bethau sy'n anodd ym mywydau'r bobl yn y cerddi?*
 - *Beth sydd wedi newid erbyn diwedd y cerddi?*
 - *Meddylwch beth yw'r neges yn y ddwy gerdd.*
- edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am **o leiaf bedair nodwedd arddull/mesur** a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- nodi pa **un** o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

Tai Unnos

Sbwriel oes yr iâ oedd y cerrig llyfnion
 orweddai'n flêr hyd lannau'r afon:

sbarion a shafins cŷn a morthwyl y rhewlif
 a siapiodd bob dyffryn ganrif wrth ganrif:

ac â'r sbwriel cododd ein cyndeidiau'n ddyfal
 fwthyn clyd yn nhro'r afon, ar seiliau petryal;

gosod carreg ar garreg rhwng gwyll a gwawr,
 a chynnau tân cyn i'r landlord dynnu'r cyfan i lawr;

hawlio darn o dir a'i godi'n aelwyd,
 drwy nerth bôn braich troi llafur yn freuddwyd:

ar lannau traffyrdd y dinasoedd llwydion,
 ac yng nghesail goncrid swyddfeydd gweigion,

dan bontydd ffyrdd osgoi, mewn meysydd parcio mae rhai
 yn eu dyblau heno hefyd wrthi'n codi tai,

rhoi trefn ar sbwriel dan y sêr,
 hawlio darn o dir â bocsys cardbord blêr.

Iwan Llwyd

Ddoe a Heddiw

Roedd ddoe yn cerdded hyd y dref
 yn dal ei ben yn uchel,
 mae heddiw'n gorwedd ar y fainc
 a'i fyd yn dawel, dawel.

Roedd ddoe mewn swydd o naw tan bump
 a hedfan a wna'i oriau,
 mae heddiw'n gwylio'r byd yn troi
 a chyfri'r holl eiliadau.

Roedd ddoe mewn car fel brenin balch
 bob dydd yn gyfoethocach,
 heddiw ei gerbyd yw'r ddwy droed
 ac mae'r daith yn troi'n anoddach.

Roedd ddoe yn seren uwch y byd
 a phawb yn ffrindiau iddo,
 ond heddiw'n neb ar fin y ffordd
 a'r byd wedi'i anghofio.

Ffion Elan

DIWEDD Y PAPUR